Gorffennaf 2020

# Diweddariad i Gomisiynydd y Gymraeg: 2019/2020

## Cyflwyniad

Sefydlodd Deddf yr Iaith Cymraeg 1993 ddyletswydd i sefydliadau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun). Paratowyd y Cynllun a gynhyrchwyd gan yr Ombwdsmon Cyfreithiol (LeO) o dan ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac wrth ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg erbyn hyn) cyn ei gyhoeddi.

Mae'n disgrifio sut y byddwn, wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yn gweithredu'r egwyddor ein bod yn trin yr ieithoedd Saesneg a Chymraeg yn gyfartal, i'r graddau y mae'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Paratowyd y Cynllun yn unol ag Adrannau 12 i 14 y Ddeddf ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf. Daeth y Cynllun i rym ar 11 Mai 2011.

Mae'r papur hwn yn nodi sut mae LeO wedi cyflawni ei rwymedigaethau o dan delerau ei Gynllun wrth ddarparu ei wasanaethau yng Nghymru rhwng Mehefin 2019 a Mai 2020. Dyma nawfed flwyddyn gweithrediad y Cynllun.

## Beth rydym yn ei wneud

Sefydlwyd cynllun yr Ombwdsmon Cyfreithiol gan y Swyddfa Cwynion Cyfreithiol (OLC) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007. Gall defnyddwyr gwasanaethau cyfreithiol gyrchu cynllun Ombwdsmon annibynnol a diduedd er mwyn datrys anghydfodau sy'n ymwneud â'u cyfreithiwr. Ni yw'r unig gorff ar gyfer pob cwyn gyfreithiol gan ddefnyddwyr. Rhwng mis Ionawr 2015 a mis Ebrill 2019 fe wnaethom hefyd dderbyn cwynion am gwmnïau sy’n rheoli hawliadau. Mae'r awdurdodaeth hon bellach wedi trosglwyddo i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Mae'r OLC yn atebol i'r Senedd trwy'r Arglwydd Ganghellor ac mae'n gorff hyd braich o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ). Mae gan LeO hefyd berthynas uniongyrchol â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (LSB) sydd â nifer o swyddogaethau wrth oruchwylio'r Swyddfa Cwynion Cyfreithiol.

Mae'r berthynas rhwng yr OLC, y MoJ a'r LSB wedi'i nodi mewn protocol gweithredu teiran y cytunwyd arno rhwng y cyrff, sy'n gosod y fframwaith ar gyfer sut y bydd y berthynas yn gweithredu gyda'n sefydliadau partner. Mae hwn ar gael oddi ar ein gwefan: http://www.legalombudsman.org.uk

## Cysylltiadau a chwynion a anfonwyd atom i'w hymchwilio

Dros y cyfnod adrodd, derbyniodd LeO dair cwyn lle nododd yr unigolyn ei fod yn siaradwr Cymraeg.

F wnaethom ohebu ag un AS Cymru. Ni ofynnodd yr un o'r rhain i ni ohebu yn Gymraeg.

Mae ein hadran 'gwybodaeth gyffredinol' Gymraeg ar wefan y LeO wedi derbyn 224 o olygon unigryw â thudalennau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae golygon unigryw o dudalennau yn cyfeirio at nifer y defnyddwyr unigol yn lle dim ond nifer y cliciau. Yr amser a dreuliwyd ar y dudalen hon ar gyfartaledd oedd 1 munud 15 eiliad.

Gall pobl anfon eu cwynion atom trwy offeryn ar-lein sydd â holiadur a ffurflen gwynion yn Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ymwelwyd â'r tudalennau hyn fel a ganlyn:

**Offeryn Asesu Cwsmer** - 19 ymweliad

**Tudalen ffurflen gwynion** - 5 ymweliad

Mae ein hymateb i ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg yn gymesur â lefel y cysylltiadau a dderbyniwn yn yr iaith Gymraeg. Rydym yn cadw hyn o dan adolygiad rheolaidd a byddwn yn diweddaru ein gofynion iaith os bydd unrhyw beth sylweddol yn newid.

**Cyhoeddiadau**

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi data blynyddol am y cwynion yr ydym yn ymchwilio iddynt. Eleni fe wnaethom gynhyrchu gwybodaeth benodol am gwynion a wnaed gan bobl o Gymru. Gellir gweld y data hyn yma.

Cyfieithwyd ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon ar gyfer 2018/19 i'r Gymraeg, a'r bwriad yw gwneud yr un peth ar gyfer adroddiad eleni a sicrhau ei fod ar gael ar ein gwefan.

**Digwyddiadau siarad**

Y llynedd, siaradodd un o'n ombwdsmyn mewn digwyddiad Rhwydwaith Cyfreithiol Cymru. Mae hon yn berthynas rydym wedi adeiladu arni, ac eleni fe'n gwahoddwyd i fynychu tri digwyddiad arall ar gyfer digwyddiadau Rhwydwaith Cyfreithiol Cymru i weithwyr proffesiynol cyfreithiol yn Abertawe, Caerdydd ac Aberystwyth. Fe wnaethom hefyd gynnal ein cwrs Trin Cwynion ein hunain i weithwyr proffesiynol cyfreithiol yng Nghaerdydd eleni a fynychwyd gan 25 o bobl.

**Monitro a chwynion**

Rydym yn parhau i fonitro ein darpariaeth Gymraeg er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun.
Mae'r tîm Materion Allanol yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun a byddant yn parhau i fonitro ein cynnydd wrth ei gyflawni.

Lle gallai polisïau a mentrau corfforaethol newydd effeithio ar ein Cynllun, bydd LeO yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.

Wrth ystyried unrhyw newidiadau polisi newydd, rhoddir ystyriaeth i unrhyw effaith a goblygiadau y gallai'r polisi eu cael ar Gynllun yr Gymraeg.

**Casgliad**

Mae'r Ombwdsmon Cyfreithiol yn parhau i gymryd ei rwymedigaethau statudol tuag at ddarpariaeth Gymraeg o ddifrif. Byddwn yn parhau i asesu sut y gallwn wasanaethu buddiannau defnyddwyr y gwasanaeth yng Nghymru orau.

I gael rhagor o wybodaeth am y wybodaeth a gynhwysir yn y papur hwn, cysylltwch â'r tîm Materion Allanol yn support@legalombudsman.org.uk.